**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 16 Mehefin 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| H J Gwilliam | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | A Pugh | R V Smith |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): E W Fitzgerald, C A Holley

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A H Stevens

---

## 1. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 9 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

## 2. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2022.

## 3. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**1) Aelodau'r Cabinet yn Rhannu Swydd**

Croesawodd Arweinydd y Cyngor y Cynghorwyr Cyril Anderson a Hayley Gwilliam i'w cyfarfod Cabinet cyntaf. Dywedodd mai hwy oedd yr Aelodau Cabinet swyddogol cyntaf i rannu swydd yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Dywedodd er y gall y ddau ohonynt fwrw pleidlais, y byddai'n cael ei gyfrif fel un bleidlais yn unig. Os nad oeddent yn cytuno ar benderfyniad, yna ni fyddai eu pleidlais yn cael ei chyfrif.

**4. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**5. Hawl i holi cynghorwyr.**

Gofynnodd y Cynghorydd E W Fitzgerald nifer o gwestiynau mewn perthynas â Chofnod Rhif 7 “Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol – Grantiau'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Teithio Llesol ar gyfer 2022/23”. Dywedodd fod y cwestiynau hefyd wedi cael eu cyflwyno i'r Tîm Trafnidiaeth.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor a dywedodd y byddai:

1) Ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu mewn perthynas â'r sylw ar y Ffurflen Sgrinio Asesiadau yn dweud y gall Teithio Llesol gael effaith fawr ar anabledd.

2) Byddai'n anfon gwahoddiad y Cynghorydd E W Fitzgerald i'r Aelod y Cabinet perthnasol ystyried gwrdd â phreswylwyr ymlaen ato.

**6. Ymchwiliad Craffu i Waith Caffael.**

Cyflwynodd y Cynghorydd C A Holley y canfyddiadau, y casgliadau a'r argymhellion sy'n deillio o Ymchwiliad y Panel Craffu i Gaffael.

**Penderfynwyd:**

1) Bydd Aelod perthnasol y Cabinet yn adrodd yn ôl i gyfarfod y Cabinet drwy lunio ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion craffu a'r cam(au) gweithredu arfaethedig.

**7. Rheol Gweithdrefn Ariannol 7 - Cronfa Trafnidiaeth Leol a Grantiau'r Gronfa Teithio Llesol ar gyfer 2022/23.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer ceisiadau am gyllid ar gyfer y Gronfa Trafnidiaeth Leol (CTL) a'r Gronfa Teithio Llesol (CTLl) ac am gymeradwyaeth ddirprwyedig ar ôl derbyn llythyr dyfarnu grant i'r Cyfarwyddwr ac Aelod y Cabinet ar gyfer gwariant ar brosiectau cysylltiedig yn 2022/2023.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r ceisiadau am gyllid grant a rhoi caniatâd dirprwyedig i Aelod y Cabinet a'r Cyfarwyddwr Lleoedd dderbyn unrhyw gyllid grant a ddyfarnwyd ar gyfer y cynlluniau CTL a CTLl.

2) Rhoi pwerau dirprwyedig i Aelod y Cabinet a'r Cyfarwyddwr Lleoedd wneud cais am gyllid grant ychwanegol sydd ar gael ar gyfer cynlluniau CTL a CTLl yn yr un flwyddyn ariannol a'i dderbyn.

3) Ychwanegu'r cynlluniau cymeradwy at raglen gyfalaf y cyngor yn unol â FPR7.

**8. Cyllideb Gymunedol 2022-2027.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn darparu'r diweddaraf ynghylch Cyllidebau Cymunedol Aelodau ar gyfer arweiniad blynyddoedd 2022-2027 fel rhan o Gyllideb Refeniw y cyngor.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r canllawiau Gwariant Cyllidebau Cymunedol Aelodau diwygiedig a atodir yn Atodiad B yr adroddiad.

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Aelod Perthnasol y Cabinet wneud unrhyw newidiadau i'r Canllawiau yn y dyfodol.

**9. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.**

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gyfun yr Esgob Gore | Peter Jones |
| 2) | Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt | y Cyng. Lyndon Jones |
| 3) | Ysgol Gynradd Blaenymaes | Jonathan Lomas |
| 4) | Ysgol Gynradd Gendros | Ann Cook |
| 5) | Ysgol Gynradd Glyncollen | Michael Hedges |
| 6) | Ysgol Gynradd Ystumllwynarth | Helen Faulkner |

Daeth y cyfarfod I ben am 10.40 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 16 Mehefin 2022 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 21 Mehefin 2022 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 22 Mehefin 2022 |